



Atodiad 1

# **DRAFFT Gwyrddach, Tecach, Cryfach**

**Strategaeth Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas**

Mai 2021 – Dogfen Ymgysylltu



## Cynnwys

<b>Introduction</b> .....	<b>3</b>
<b>The Impact of COVID-19 on Cardiff</b> .....	<b>4</b>
The response to date .....	6
<b>UK Context</b> .....	<b>8</b>
<b>International Picture</b> .....	<b>10</b>
Cities on the eve of COVID-19 .....	10
Managing a changing city centre as three challenges converge .....	11
A model city post-COVID-19? .....	12
<b>10 key trends to shape Cardiff's recovery and renewal</b> .....	<b>13</b>
<b>Recovery and Renewal: Greener, Fairer, Stronger</b> .....	<b>14</b>
<b>Immediate Recovery: Protecting Jobs and Business</b> .....	<b>15</b>
<b>Key Missions</b> .....	<b>17</b>
Mission 1: Reimagine the city centre .....	17
Mission 2: A City for Everyone .....	19
Mission 3: A City of Villages .....	21
Mission 4: Culture and sport-led renewal .....	23
Mission 5: Tech City .....	26
Mission 6: One Planet Recovery .....	28
<b>Delivering the Missions</b> .....	<b>30</b>

## Cyflwyniad

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith eithriadol ar Gaerdydd, gan newid y ffordd rydym yn byw ein bywydau a'r ffordd rydym yn gwneud busnes mewn ffyrdd na allai llawer ohonom fod wedi'u dychmygu.

Wrth i'r ddinas ddod allan o'r pandemig mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y camau y mae angen i ni eu cymryd i gyflymu adferiad, gan gydnabod ar yr un pryd fod angen inni ddefnyddio'r argyfwng fel catalydd i adeiladu'n ôl yn gryfach, yn wyrddach ac yn decach.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ymateb cychwynnol y Cyngor i'r pandemig, gan amlinellu'r camau cychwynnol y byddwn yn eu cymryd i helpu i gael economi'r ddinas a bywyd y ddinas yn ôl ar eu traed ochr yn ochr â'r blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer adnewyddu.

Mae'n amlinellu'n gryno sut mae'r pandemig wedi effeithio ar economi'r ddinas a'r tueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi'u cyflymu yn ystod yr argyfwng. Yn ogystal, er mwyn llywio'r gwaith hwn, comisiynwyd Dr Tim Williams, awdurdod blaenllaw ar ddatblygu dinasoedd, i roi persbectif byd-eang. Mae ein hymateb yn gyfres o deithiau allweddol i ddatblygu dinas y dyfodol, a'r camau cychwynnol yr ystyriwn eu bod yn briodol i gyflawni'r teithiau hyn.

Mae'n sicr y bydd y pandemig yn cael effaith hirdymor, ond rydym hefyd wedi gweld cyflymiad o dueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg cyn COVID-19. Yn yr un modd, rydym wedi gweld newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn byw y gallem fod eisiau eu cynnwys yn y ddinas yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr holl faterion hyn a sut, o safbwynt datblygu dinas, y dylem fabwysiadu dull partneriaeth o fynd i'r afael ag argyfwng sydd, mewn sawl ffordd, yn debyg i'r hyn a effeithiodd ar y ddinas wrth iddi fynd i'r afael â'r broses o ddad-ddiwydiannu ar ddiwedd y 1970au a'r 1980au.

Mae'r ddinas yn mynd i amgylchedd newydd a gwahanol, gyda heriau a chyfleoedd newydd. Mae'r ddogfen hon yn cynnig rhai o'r mentrau a'r prosiectau y bydd y Cyngor yn eu datblygu, ac yn dechrau sgwrs gyda dinasyddion a rhanddeiliaid y ddinas ar sut y gallwn ni, gyda'n gilydd, arwain adferiad ac adnewyddu ym mhrifddinas Cymru.



## Effaith COVID-19 ar Gaerdydd

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar bob agwedd ar fywyd y ddinas. Yn bennaf oll, mae'n argyfwng iechyd cyhoeddus sydd wedi gweld dros 880 o ddinasyddion yn colli eu bywydau a thros 26,000 o bobl wedi'u heintio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae aros gartref ac aros yn lleol wedi golygu misoedd lawer ar wahân i deuluoedd a ffrindiau.

Mae busnesau wedi cau am gyfnodau estynedig ac mae drysau manwerthu a lletygarwch wedi cau, gyda 50,000 o weithwyr yn y ddinas ar ffyrlo yn haf 2020, ac mae 9,000 wedi bod yn ddibynol ar y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth ac mae diweithdra wedi dyblu'n fwy na heb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Effeithiwyd yn arbennig ar swyddi a busnesau lle mae cyswllt uniongyrchol â phobl, gan gynnwys manwerthu, lletygarwch a gwasanaethau cyswllt agos. Mae'r sectorau hyn sy'n tueddu i gyflogi mwy o bobl ifanc, menywod a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig ac sydd fel arfer, er nad yn gyfan gwbl, wedi'u crynhoi yng nghanol y ddinas.

Felly, effeithiwyd yn arbennig ar fusnesau canol y ddinas yn ystod y cyfnod hwn. Stopiodd y rhan fwyaf o fusnesau yng nghanol y ddinas weithredu yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, tra bod dwy ran o bump yn pryderu am roi'r gorau i fasnachu. Mae hyn mewn ardal sydd â bron 70,000 o swyddi, clwstwr cyflogaeth mwyaf Cymru, sy'n cynrychioli tua thraean o weithlu'r ddinas ac yn gyfrifol am ddenu'r rhan fwyaf o'r 21 miliwn o ymwelwyr blynyddol yn y ddinas.

Ledled y DU mae busnesau hefyd wedi bod yn colli swyddi'n barhaol. Mewn rhai achosion mae hyn wedi bod o ganlyniad i effaith economaidd uniongyrchol y pandemig, tra bod busnesau eraill (yn enwedig rhai cadwyni manwerthu mawr ar y stryd fawr) wedi gweld cyflymu tueddiadau fel y symudiad tuag at siopa ar-lein. O ganlyniad, mae'n amlwg, er gwaethaf y gefnogaeth sydd ar waith, nad ydym yn disgwyl i'r farchnad lafur gael ei hadfer yn llawn ac ar unwaith ar ôl i'r holl gyfyngiadau gael eu codi.

Mae canol dinasoedd hefyd wedi gweld effaith cyfyngiadau ar ddigwyddiadau a nifer yr achosion o weithio o gartref i weithwyr swyddfa.

Dangosodd tystiolaeth o'r haf diwethaf lle'r oedd llacio'r cyfyngiadau wedi caniatáu'n raddol ailagor lletygarwch gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith fod nifer yr ymwelwyr yn dychwelyd i lefelau ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, yn enwedig yn ardaloedd y ddinas lle cyflwynodd y Cyngor ymyriadau penodol i gynorthwyo ymbellhau cymdeithasol.

Mae'r pandemig wedi gweld lleoliadau diwylliannol ac amgueddfeydd y ddinas yn cau eu drysau, gydag effaith

ar fywyd y ddinas, lles a swyddi yn y sectorau celfyddydol a chreadigol.

Mae'r pandemig hefyd wedi newid y ffordd rydyn ni'n defnyddio ein dinas. Yr ydym wedi gweld newidiadau radical yn y ffordd yr ydym yn symud o gwmpas, gyda chynnydd mewn beicio'n gysylltiedig â gostyngiadau mawr yn y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus. Mae tagfeydd wedi lleihau, gwellwyd ansawdd aer, a chymudo yn y ddinas-ranbarth yn llai o lawer ers cyn y pandemig.

Mae'r cynnydd mewn gweithio gartref, gydag amcangyfrif o 46% ohonom yn gweithio o bell yng Nghaerdydd, wedi arwain at lawer yn darganfod y cymdogaethau ar garreg eu drws am y tro cyntaf, a mwy o alw am wasanaethau ac amwynderau yn nes adref. Mae manau cyhoeddus a pharciau'r ddinas wedi dod yn bwysicach fyth, ar gyfer cael mynediad i fannau gwyrdd a natur yn ystod y cyfnod clo a, phan wnaeth cyfyngiadau ganiatáu, i gyfarfod â ffrindiau a theulu.

Bydd gwahanol gymunedau a grwpiau o bobl wedi cael profiadau gwahanol iawn. Nid yw effaith y pandemig ar iechyd wedi'i theimlo'n deg, gyda lefelau uwch o haint yng nghymunedau mwy difreintiedig y ddinas ac ymhlith lleiafrifoedd ethnig.

Ac er bod plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn llai clinigol agored i COVID-19 na'r boblogaeth oedolion, mae effeithiau ehangach y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y genhedlaeth iau. Ers mis Mawrth 2020, mae plant a phobl ifanc wedi profi sawl cyfnod estynedig o gau ysgolion ac wedi gweld arferion eu bywydau bob dydd yn llwyr newid.

### Crynodeb o'r Effaith ar Gaerdydd

- Cafodd economi'r ddinas ei tharo'n galed gan y pandemig, gyda dyblu diweithdra ond yn cael ei liniaru gan lefelau uchel o gefnogaeth gyhoeddus.
- Cafodd pobl ifanc eu taro'n arbennig, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn digwyddiadau, lletygarwch a manwerthu.
- Roedd newid cyflym a sylweddol i weithio gartref, gyda 46% o'r gweithlu yn gweithio gartref ar anterth y pandemig.
- Roedd canol y ddinas yn arbennig yn teimlo'r effaith oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd, a nifer yr achosion o weithio gartref.
- Cafodd y sector diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ei daro'n galed, ac ataliwyd rhaglen digwyddiadau mawr Caerdydd.
- Mae trafndiaeth yn llifo ar draws ac i mewn i'r ddinas wedi lleihau, gyda symudiad at feicio a cherdded
- Bydd anghydraddoldebau economaidd a fodolai cyn y pandemig: rhwng yr hen a'r ifanc; cyfoethog a thlawd; a rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig; wedi ehangu.

- Mae tystiolaeth o haf 2020 wedi dangos, unwaith y bydd cyfyngiadau'n lleddfu, bod galw parhaus yn ein heconomi.

## Mae'r ymateb hyd yma

### Cefnogi busnesau a gweithwyr

Ym mis Mehefin 2020, cytunodd y Cabinet i sefydlu Tasglu Adfer Economaidd, gan ganolbwyntio ar:

- Roi cymorth i fusnesau a gweithwyr;
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc;
- Creu partneriaethau i hyrwyddo'r defnydd o opsiynau;

Sicrhodd Tîm i Mewn i Waith y Cyngor dros £1 filiwn o gyllid yn llwyddiannus i gynyddu'r capasiti i ymateb. Mae hyn wedi galluogi cynyddu gweithgarwch, gan arwain at tua 400 o unigolion yn cael cymorth i gael gwaith. Yn ogystal, cefnogodd y tîm ymhell dros 200 o gyflogwyr drwy eu Tîm Cyswllt Cyflogwyr, rhoddodd gyngor ar gael mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant neu fudd-daliadau i 40,000 o unigolion, gan gefnogi dros 1,000 o unigolion â hawliadau Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol; darparwyd dros 300 o gyrsiau hyfforddi a darparwyd hyfforddiant Dysgu Oedolion i dros 1,200 o bobl. Mae'r Tîm i Mewn i Waith hefyd wedi datblygu cymorth diswyddo diwydiant-benodol i gyflogwyr y mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn effeithio arnynt, megis Debenhams ac Arcadia.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru i adolygu'r galw am gymorth busnes ac, yn benodol, y rhai a syrthiodd rhwng bylchau cymorth Llywodraeth y DU. O ganlyniad, rydym wedi darparu dros 10,000 o grantiau i fusnesau bach, tua 800 o grantiau llawrydd ar gyfer y sector creadigol, yn ogystal â 200 o grantiau i fusnesau newydd. Mae timau Ardrethi Busnes a Datblygu Economaidd y Cyngor wedi cefnogi bron i 20,000 o fusnesau ac wedi talu dros £120 miliwn o gymorth ariannol yn ystod y pandemig.

### Cefnogi Pobl Ifanc

Mae'r Tasglu Adfer Economaidd hefyd wedi gweithio i greu cyfleoedd ychwanegol i bobl ifanc. Mae hyn wedi cynnwys cydgyssylltu a hyrwyddo'r Cynllun Kickstart, sy'n darparu cyllid i greu lleoliadau swyddi newydd i bobl ifanc 16 i 24 oed ar Gredyd Cynhwysol sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cais uniongyrchol i gyllid grant Cynllun Kickstart Llywodraeth y DU, i helpu i greu cyfleoedd Hyfforddion Corfforaethol Kickstart i'r rhai 16-24 oed, sy'n hawlio Budd-dal Cyffredinol ac mewn perygl o ddiweithdra hirdymor.

Mae Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor wedi ehangu ei nifer o fentoriaid, gan alluogi rhoi cymorth un-i-un i 300 yn fwy o gleientiaid yr wythnos. Mae 22 o weithwyr gofal wedi cael cymorth i gael gwaith drwy brosiectau mentora a hyfforddiant cyn cyflogi. Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi comisiynu Un Filiwn o Fentoriaid i ehangu ei raglen fentora ar gyfer pobl ifanc yng

Nghaerdydd, gan ddarparu mentora un i un i bawb sy'n cymryd rhan.

### Adferiad Canol y Ddinas

Yn ystod haf 2020 rhoddwyd cyfres o ymyriadau ar waith i gefnogi busnesau a gwneud canol y ddinas yn lle mwy diogel a deniadol i drigolion ac ymwelwyr.

Cafodd y Castell ei wneud yn rhad ac am ddim i ymwelwyr, gan greu sgwâr cyhoeddus gwyrdd newydd yng nghanol y ddinas.

Ym mis Awst 2020, sefydlodd y Cyngor, mewn partneriaeth â Caerdydd AM BYTH, Gaffi Stryd y Castell, i ddarparu lle ychwanegol i werthwyr bwyd yng nghanol y ddinas yn sgîl y cyfyngiadau a osodwyd.

Datblygodd y Cyngor hefyd yr ymgyrch '#yrUnDdinas' i hyrwyddo nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas mewn ffordd ddiogel. Cyflwynwyd yr ymgyrch yn bennaf drwy asedau digidol, gan dargedu cynulleidfaoedd penodol i adlewyrchu newidiadau mewn cyfyngiadau a ddaeth i rym.

O ganlyniad i'r ymyriadau a roddodd y Cyngor ar waith, perfformiodd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas yn well na chyfartaledd dinasoedd rhanbarthol yn sylweddol, gyda'r adferiad yn fwyaf amlwg yn Stryd y Castell a'r tu allan iddi, yn enwedig y Stryd Fawr.

### Buddsoddi mewn teithio llesol

Er mwyn cefnogi'r newid i deithio diogel a llesol, cyflwynwyd y gwaith o ddarparu'r rhwydweithiau beicio, gyda lonydd beicio dros dro newydd yn cael eu rhoi ar waith ledled y ddinas.

### Canolfannau ardal

Er mwyn cefnogi adferiad canolfannau lleol, gwnaed gwelliannau i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer bwyta ac yfed, manau cyhoeddus diogel a mwy o seilwaith cerdded a beicio lleol, gan gynnwys mentrau Wellfield Road, yr Eglwys Newydd, Llandaf a Phontcanna.

### Crynodeb Ymateb Caerdydd

- Mae cynnydd cyflym yn ei gymorth gwasanaethau I Mewn I Waith wedi helpu pobl i ddychwelyd i waith neu hyfforddiant
- Mae dros £120m o gymorth uniongyrchol i fusnesau wedi'i weinyddu gan y Cyngor.
- Mae amrywiaeth o gymorth ychwanegol hefyd wedi'i roi ar waith i bobl ifanc, gan gynnwys cynllun Hyfforddai Corfforaethol Kickstart.
- Cyflwynodd y Cyngor amrywiaeth o ymyriadau yng nghanol y ddinas a oedd yn amlinellu gwydnwch y ddinas a'r gallu i gynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Gwnaed buddsoddiadau ar draws y ddinas mewn lonydd beicio dros dro a pharhaol
- Helpodd cynlluniau canolfannau ardal i gefnogi adferiad i siopau a bwytai mewn cymunedau lleol.



## Cyd-destun y DU

Ledled y DU, mae'r pandemig wedi taro dinasoedd galetaf. Maent hefyd wedi gweld y newid mwyaf yn y ffordd y mae pobl yn gweithio, ymweld a chwarae yn eu hardaloedd lleol.

### Newid dros nos i weithio gartref

Ar ei anterth, roedd tua hanner gweithlu'r DU yn gweithredu gartref ar ryw ffurf neu'i gilydd.

Cyn y pandemig roedd cyfarfod ar-lein yn newydd-deb i lawer, heddiw dyma'r norm. Mae'n amlwg y bydd llawer o'r ymddygiad hwn yn cael ei gloi i mewn, ac y gwelwn newid parhaol yn amgylchedd y swyddfa yn y byd ôl-bandemig. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn gweld diwedd y swyddfa, ac mewn llawer o achosion ystyrir bod hyn yn gyfle i ddinasoedd ailgyfeirio eu hunain tuag at weithgareddau mwy cynhyrchiol a chydweithredol.

Er gwaethaf y pandemig bu effaith gymharol isel ar gyfraddau swyddi gwag mewn swyddfeydd hyd yma, er y bydd yr effaith lawn yn cymryd peth amser i'w deall. Serch hynny, mae gwaith a wnaed gan Arup yn awgrymu y bydd gostyngiad o 20% yn y galw am swyddfeydd yn y dyfodol.

Mae tystiolaeth o ddadansoddiad y DU hefyd yn dangos, er bod gweithio gartref yn rhywbeth sy'n addas i rai – nid yw'n rhywbeth y mae pawb am ei wneud. Yn benodol, mae arolygon wedi amlinellu bod y rhai mewn galwedigaethau rheoli bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod eisiau cael rhyw fath o weithio hyblyg na'r rhai mewn galwedigaethau llafur â llaw.

### Cyflymu'r newid i fanwerthu ar-lein

Mae dadansoddiad gan yr arbenigwyr dinasoedd Metrodynamics yn awgrymu'r hyn y mae llawer yn credu ei fod yn anochel – y bydd manwerthu ar-lein yn nodwedd fwy parhaol o'r economi ôl-bandemig. Fodd bynnag, dim ond cyflymu tuedd cyn pandemig yw hyn. Er bod y newid yn cynnig cyfleoedd i ailgynllunio canolfannau trefol i gyd-fynd â dibenion newydd, mae Metrodynamics yn amlinellu ymhellach fod heriau sylweddol i'w hwynebu yn y byrdymor. Mae amcangyfrifon gan KPMG yn awgrymu y gallai rhwng 20% – 40% o'r arlwy manwerthu gael ei golli i fanwerthu ar-lein.

### Ond, mae canol y ddinas fel 'profiad' ar gyfer siopa, bwyta ac yfed yn ymddangos yn wydn.

I'r gwrthwyneb ledled y DU rydym wedi gweld nifer yr ymwelwyr yng nghanol dinasoedd yn gwella'n gymharol gyflym. Nid yw'n ymddangos bod y galw i bobl ddychwelyd i'r mannau hyn fel lleoedd i gyfarfod, lle mae siopa neu weithio yn un rheswm i ymweld â hwy, yn arbennig o agored i niwed. I'r perwyl hwnnw, yr her i ddinasoedd yw sicrhau eu bod yn parhau'n weithgar, yn fywiog ac yn ddeniadol. Yn gyffredinol, mae dinasoedd yn

ymateb drwy wneud mwy o'r cymeriad lleol sy'n creu profiad dinas yn fwy unigryw i bob dinas.

Wedi'i orfodi i gau am ran fwyaf o'r flwyddyn, mae'r sector lletygarwch wedi cael ergyd enfawr o'r pandemig. Mae llawer yn y sector wedi cau, mae rhai wedi newid eu model busnes, tra bod eraill wedi cael trafferth. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi gweld llawer o arloesi o fewn y sector, o dafarndai a bwytai yn croesawu ffyrdd newydd o weithio.

Ar ôl pandemig, mae sylwebyddion yn amlinellu'r disgwyliad y bydd arian i'w wario, gyda lleddfu'r cyfnod clo yn arwain at ruthr o bobl yn mynd allan.

At hynny, canfu arolwg a gynhaliwyd gan Demos ei bod yn glir iawn bod y rhan fwyaf o bobl o'r farn bod eu cyfleusterau lleol, gan gynnwys manwerthu, gwasanaethau trafndiaeth a pharciau a mannau agored, wedi dod yn bwysicach iddynt. Awgrymodd yr arolwg fod hyd yn oed pethau a oedd wedi'u cyfyngu ystod y pandemig, fel mynediad i drafnidiaeth a swyddi lleol, hefyd wedi cynyddu o ran pwysigrwydd.

### Ailganfod ardaloedd lleol

Y consensws yw bod y pandemig wedi arwain at fwy o gysylltiad rhwng pobl a'u hardal ledled y DU, boed hynny ar gyfer siopa bwyd, mynd am goffi, neu archwilio'r hyn sydd ar garreg eu drws. I lawer o sylwebyddion, bydd llawer o'r gweithgarwch hwn yn parhau i fod dan glo, gydag awydd i gael cymdogaethau gwell, glanach, gwyrddach, mwy diogel a mwy cynaliadwy. Mae arolygon hefyd yn awgrymu bod pobl yn bwriadu treulio mwy o amser yn yr ardal leol, hyd yn oed wrth i'r pandemig leddfu.

### Mae'r pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau presennol

Nid yw effaith y pandemig ar iechyd wedi'i themlo'n gydradd, gyda phobl hŷn a phobl o gymunedau difreintiedig ac o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn profi canlyniadau iechyd gwaeth. Ledled y DU, mae'r rhai sy'n gweithio mewn swyddi rheng flaen – 'gweithwyr allweddol' yn aml – wedi gweld lefelau uwch o haint a mwy o farwolaethau na'r rhai sy'n gallu gweithio gartref. Yn gyffredinol, mae anghydraddoldebau economaidd ac iechyd a fodolai cyn y pandemig wedi gwaethygu.

### Crynodeb Cyd-destun y DU

- Mabwysiadodd y rhan fwyaf o weithlu'r DU ryw fath o waith cartref, a disgwylir i rywfaint o hyn barhau.
- Bydd rhywfaint o ostyngiad yn y galw am swyddfeydd.
- Bydd manwerthu ar-lein yn dod yn nodwedd fwy parhaol, ac eto disgwylir y bydd canolfannau lleol yn cael eu haileni a'r galw am iddynt deimlo'n gynhenid.
- Disgwylir i nifer o ymwelwyr ddychwelyd i ganol dinasoedd – ond efallai gan chwilio am ystod ehangach o brofiadau.



- Mae'r amgylchedd lleol wedi dod yn bwysicach i bawb ledled y DU.
- Mae effeithiau economaidd y feirws wedi taro'r cymunedau ifanc a difreintiedig yn anghymesur.

# Darlun Rhyngwladol

*Dr Tim Williams*

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ddinasoedd a bydd yn sicr o gael effaith barhaol. Fodd bynnag, mae'n amlwg na fydd yn arwain at farwolaeth dinasoedd yn ei sgil, yn hytrach bydd dinasoedd fel Caerdydd ar flaen y gad yn ein hadferiad economaidd. Mae'r pandemig wedi cyflymu tueddiadau economaidd, boed mewn gweithio ystwyth neu ddatblygiad technoleg.

Er y gallai megaddinasoedd y byd ei chael hi'n anodd wrth i bobl a busnesau chwilio am leoedd mwy cyfforddus i fyw a gweithio ynddynt, mae manteision crynodiad, rhannu syniadau a chydweithio yn debygol o ddod yn bwysicach nag erioed.

Bydd ansawdd bywyd yn dod yn fwyfwy pwysig i bobl sy'n byw mewn dinasoedd, ac mae hyn yn dod â chyfle gwirioneddol i ddinasoedd llai sy'n ddigon mawr i elwa o goleddu, ond yn ddigon bach i ddarparu ansawdd bywyd heb ganlyniadau negyddol llygredd, tagfeydd, a chost byw uchel.

Yng Nghymru, Caerdydd sydd yn y sefyllfa orau i ymateb. Gwendid Caerdydd yw ei chyfle hefyd. Mae'r ddinas, yn ôl safonau rhyngwladol, yn fach. Mae ei maint yn golygu nad yw'n sicrhau'r manteision crynodiad i'r genedl y gallai, ac er bod ei haileni yn y degawdau diwethaf wedi gweld y ddinas yn perfformio'n dda, mae'n dal i fod ymhell o gyflawni dros y genedl yn y ffordd y gallai.

Mae'n hanfodol bod Caerdydd yn cael ei grymuso i ymateb. Mae'r holl dystiolaeth ar berfformiad dinasoedd yn dangos bod ei llywodraethau'n ffynnu ac yn cyflawni'r rhan fwyaf ar gyfer eu rhanbarth pan gânt eu grymuso ac yn gweithio mewn partneriaeth â haenau eraill o lywodraeth. Mae'n hanfodol, felly, bod y ddinas yn cael y cyfrifoldeb, y pwerau a'r gallu i bennu a rheoli ei hagenda economaidd – ond wrth wneud hynny rhaid iddi fod law yn llaw â'i phartneriaid yn y ddinas-ranbarth a'r llywodraeth genedlaethol.

## Dinasoedd ar drothwy COVID-19

Mae hanes yn awgrymu y byddwn ni fel cymdeithas yn trechu'r bygythiad hwn, waeth pa mor besimistaidd fu'r hwyliu. Rhaid cofio, yn dilyn Ffliw Sbaeneg 1918/19, y daeth yr 20au gwyllt, pan ddychwelodd twf i ddinasoedd a'r defnydd amlwg ohonynt. Fel y noda'r trefolydd Ed Glaeser, mae gan ddinasoedd a phandemigau hanes hir: mae dinasoedd a threfi bob amser wedi gorfod 'cael cydbwysedd rhwng darparu'r dwyseddau sy'n cefnogi'r cydweithio, yr wybodaeth a'r arloesedd sydd eu hangen i gyflymu twf economaidd, tra'n mynd i'r afael hefyd â'r risgiau i iechyd y cyhoedd y mae dwysedd yn eu creu'.

Beth bynnag sy'n digwydd o'r pwynt hwn, nid oes amheuaeth y gall Caerdydd, gyda'i sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi'u halinio, ei 'reoli', a gwneud hynny gyda dychymyg ac asbri. Wrth wneud hynny gall Caerdydd nid yn unig barhau â'i thaith fel Dinas Graidd Cymru ond hefyd ddenu buddsoddiad a thalent newydd ar hyd y ffordd.

Ar drothwy COVID-19, roedd dinasoedd 'Mega', yn dechrau profi pwysau o dwf. Roedd eu cynhyrchiant ac felly eu hatyniad yn y farchnad ryngwladol yn eu gwneud yn ddiodefwyr o'u llwyddiant eu hunain gan fygwth eu monopoli fel atyniad talent, syniadau a chyfoeth. Yn benodol, roedd chwyddiant prisiau asedau uchel yn ysgogi rhai teuluoedd â phlant i symud i ardaloedd sy'n cynnig mwy o dai fforddiadwy a gallu byw

cyfatebol neu well. Roedd y dinasoedd byd-eang a'r rhai ar ffin y categori hwnnw'n dod yn 'ddinasoedd moethus', yn cael eu "boneddigo" a dod yn fwy anghyfartal. Roedd hyn yn ysgogi mwy o ddi-ddordeb yn atyniadau dinasoedd 'eilaidd' cystadleuol, gydag arwyddion o newid posibl yn naearyddiaeth atyniad talent a buddsoddiad lle cafodd dinasoedd llai ond cystadleuol gyda'r asedau cywir, amgylcheddau byw a strategaethau i fanteisio ar y sefyllfa.

## Mae newyddion am farwolaeth dinasoedd wedi'i orliwio'n fawr....

Wrth ruthro i amddiffyn dinasoedd, mae'r trefolydd Richard Florida yn dweud bod y 'newyddion am farwolaeth dinasoedd wedi cael ei orliwio'n fawr'. Gan gyfaddef y bydd rhai agweddau ar ein dinasoedd a'n hardaloedd metropolitan yn cael eu hail-lunio, yn dibynnu ar ba mor hir y mae'r pandemig presennol yn para' a bod 'ofn dwysedd, ac o isffyrdd a threnau yn arbennig, ynghyd ag awydd am amgylchedd mwy diogel a mwy preifat yn gallu tynnu rhai tuag at y maestrefi', mae Florida'n awgrymu y bydd 'grymoedd eraill yn gwthio pobl yn ôl tuag at y canolfannau trefol mawr'. Mae'n ychwanegu y bydd rhai ohonynt yn artistiaid a cherddorion a dynnir yn ôl gan renti is, diotlch i'r diffyg economaidd o'r feirws sy'n caniatáu i ddinasoedd 'ailosod ac ail-lunio eu sefyllfaoedd creadigol'. Roedd sylwebyddion eraill wedi adleisio'r farn hon y bydd dinasoedd o'r fath yn gweld cynnydd o ran poblogaethau canol dinas a mwy o bobl ifanc yng nghanol dinasoedd.

## Argyfwng i ddinasoedd mawr – a 'gwahaniaeth Caerdydd' fel dinas sy'n addas ar gyfer y cyfnod newydd?

Yn y cyd-destun hwn, pa beryglon gwirioneddol bynnag a allai fod o'r dwyseddau yn y dinasoedd mawr ar y llwyfan byd-eang, mae perygl penodol o ddinasoedd fel Caerdydd yn cael eu grwpio'n anghywir gyda dinasoedd o'r fath fel rhai sy'n peri'r un risg iechyd canfyddedig pan fo ei dwysedd datblygu ei hun, preswyl a masnachol, yn llawer is na dinasoedd y gallai rhai ddyfalu eu bod yn 'risg uchel'.

Mae angen mwy o naws a dealltwriaeth o'r graddau y gallai COVID-19 atgyfnerthu allanolegau negyddol dinasoedd mwy ond mewn gwirionedd mae'n dwysáu gwerth rhai llai fel Caerdydd. Mae'r broblem ganfyddedig ynghylch dinasoedd mawr, tra'n llusgo pob math o ddinasoedd i lawr ar hyn o bryd, yn gyfle i ddinasoedd eilaidd a llai sydd â'r asedau cywir. Nid yw Caerdydd wedi'i chydgrynhoi i'r graddau ei bod wedi profi'r diffyg twf a gafwyd mewn dinasoedd wedi'u gorydgrynhoi a waethygydd wrth i COVID-19 daro, gan arwain at dystiolaeth o garfanau penodol yn ceisio gadael dinasoedd o'r fath.

## Gwerthu dinasoedd mwy, prynu Caerdydd? Cyfle y tu hwnt i'r argyfwng

Mae gan Gaerdydd, yn wrthrychol, raddfa a strwythur na allai ei gymhwyso fel megaddinas. Mae ei phoblogaeth yn cyfateb i fwrdeistref fwy yn Llundain ond mae 31 o'r rheini. Os oes pryderon am dyrru swyddfa uchel ar ddwysedd uchel a COVID-19 – mwy canfyddedig na real fel y gwelsom – mae gan Gaerdydd gyfanswm o ddim ond 17 o adeiladau swyddfa a phreswyl dros 50 metr o uchder, y trothwy swyddogol i'w hystyried yn adeilad tal – a dim dros 100 metr gyda'r ddau dalaf yn 80 metr. Ei phatrymau preswyl amlycaf yw terasau dwysedd canolig mewn cymdogaeth agosach a hŷn a chartrefi maestrefol dwysedd is ychydig o gilomedrau ymhellach allan.

Felly, nid yw Caerdydd wedi datblygu llawer o allanolegau negyddol dinasoedd mawr tra'n adeiladu'n dda tuag at y math o weithgarwch, diwylliant, bwyd a phob math arall o ryngweithio

dynol yr ydym yn chwilio amdano mewn dinasoedd. Ychwaneger awrygylch ac effaith unigryw digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr – rhywbeth y mae'n rhaid iddo, ac sy'n gallu bod, gyda dychymyg a cydweithio, gael ei sicrhau, ac mae gennych gynnig dinas unigryw yn datblygu, gyda mwy i ddod.

Os oedd dinasoedd trwchus yn risg pandemig – heb eu profi eto – nid yw Caerdydd yn y bôn yn ddinas o'r fath ac nid oedd ar y ffordd i fod felly. Nid Wuhan, Milan, na hyd yn oed Hackney neu Camden mohoni. Mae gan Gaerdydd ychydig dros chwarter dwysedd poblogaeth bwrdeistrefi tebyg yn Llundain. Er bod ardaloedd o ddwysedd uchel, yn gyffredinol mae Caerdydd mewn gwirionedd yn is o ran dwysedd preswyl a hefyd yn is o ran dwysedd eiddo tiriog masnachol na Copenhagen, "yr" enghraifft ar gyfer dwysedd yn cael ei gynllunio'n dda a chynllunio trefol da. Serch hynny, mae gan Gaerdydd lawer o asedau prifddinas sylweddol, megis parciau o'r radd flaenaf, stadiwm, strydoedd ac adeiladau hanesyddol, lleoliadau ar lan y **dŵr, asedau diwylliant a chymdogaethau preswyl sydd** o ansawdd rhagorol ac sy'n sylfaen gadarn ar gyfer datblygu prifddinas wych.

Hefyd, yn wrthrychol, mae gan Gaerdydd felly asedau sy'n helpu ei pherfformiad economaidd a lles cymharol. Yn oddrychol, gyda'r strategaeth gwydnwch ac adfywio'r ddinas gywir, gall y Cyngor a'i bartneriaid ddewis adeiladu ar yr asedau hyn a gall gryfhau'r ddinas ymhellach a gwneud hynny sefydlu ei brand fel dinas enghreifftiol sy'n gwrthsefyll risgiau aciwt i iechyd y cyhoedd.

Dylai'r ddinas honno fod yn ddinas deithiau byr y gellir byw ynddi, yn gynhwysol ac yn gynhyrchiol o ran swyddi, cartrefi ac amwynder; yn ddinas o gysylltedd rhithwir a chorfforol mawr rhwng ei chanol, ei nodweddion blaenoriaeth, ei safleoedd niferus, amrywiol, blaenllaw, ei chymdogaethau cynaliadwy a'i chalon ranbarthol. Dylem ddod ag arbenigwyr iechyd cyhoeddus i'r bwrdd dylunio a chynllunio trefol i gynnig persbectif newydd ar nodweddion dylunio cymdogaethau sy'n hyrwyddo lles corfforol a meddyliol. Y ddinas lle nad dwysedd ar unrhyw gost oedd y nod, ond dwysedd wedi'i wneud yn dda. Mae'r ddinas ar raddfa ddynol – y ddinas ddigon mawr – yn iawn ar gyfer yr amseroedd, yn wydn yn wyneb her. Gallech ei galw'n Gaerdydd 2040.

## Rheoli canol dinas sy'n newid wrth i dair her ddod at ei gilydd

Wrth i COVID-19 daro roedd pryderon cyffredinol mewn dinasoedd ym mhobman am dueddiadau oedd ar y gweill eisoes ond sydd wedi cael eu cyflymu yn sgil y pandemig. Y rhain yw'r newid i weithio gartref a'r cynnydd mewn manwerthu ar-lein. Ychwaneger at hyn fater unigryw Caerdydd o gael stadiwm o'r radd flaenaf yng nghanol y ddinas a'r goblygiad cysylltiedig ar gyfer hyn i gyd ar gyfer y sector lletygarwch yn y lle arbennig hwn – ac mae gennych storm berffaith bosibl o heriau i ganol dinas fel hon. Mae hyn yn her sylweddol o ran rheoli canol y ddinas. Bydd angen adnoddau, capasiti a ffocws, cydweithredu a dychymyg i ddelio â'r her hon.

### Manwerthu

Manwerthu yw'r sector sydd, mae'n debyg, wedi profi'r 'sioc negyddol' fwyaf o COVID-19 – ar ben ei heriau cyn y pandemig: mae newid dramatig ar y gweill a'r hyn a alwyd yn 'Amazoneiddiad' ein dinasoedd. Mae'r newid o 'frics i gliciau' yn fygythiad o'r tu allan i ganol dinasoedd – ac mae angen i gynghrair o'r sectorau cyhoeddus a phreifat perthnasol ymateb

yn bendant iddo. Mae amrywiaeth o ddulliau creadigol yn cael eu datblygu mewn dinasoedd mewn ymateb i greu parthau ar gyfer defnyddiau cymysg ac ailgynllunio adeiladau'n fewnol i fywiogi mannau cyhoeddus yn allanol.

Bydd angen i'r newid hwn fod yn ffocws craidd. Mae cyfleoedd gwirioneddol i arallgyfeirio canol dinasoedd a'u gwneud yn fwy deniadol ac apelgar i fwy o gynulleidfaoedd, ond bydd angen dychymyg a chapasiti i helpu i bontio'n llwyddiannus. Bydd angen i'r Cyngor arwain y gwaith o 'guradu' canol y ddinas, gan weithio gyda busnesau a haenau eraill o lywodraeth.

Bydd yr un peth yn wir am effaith newidiadau i'w sylfaen cwsmeriaid ar letygarwch gyda chynghorau angen bod yn hyblyg ac yn greadigol o ran trosglwyddo defnyddiau ond hefyd wrth gynorthwyo'r sector i dyfu allan ar y strydoedd hyd yn oed yn fwy. Bydd angen i Gaerdydd weithio'n greadigol gyda'r sector i adfer momentwm neu i ddod o hyd i ffyrdd eraill o sicrhau bywiogrwydd ar y stryd, gyda'r nos ac yn ystod y dydd. Mae gan Faer Barcelona slogan mewn cyd-destun arall a ddylai ysbrydoli ein gyd-ddeallusrwydd o amgylch y broblem allweddol hon: 'Llenwch y strydoedd gyda bywyd'.

### Swyddfeydd

Mae'n amlwg bod y newid i weithio gartref hefyd wedi cael effaith radical. Nid yw'n glir pa mor radical dros y tymor hir nac a fydd dyfodiad brechlyn yn adfer defnydd swyddfeydd yng nghanol dinasoedd. Gwnaed gormod o'r sylwebaeth ar ddyfodol swyddfeydd ar ddechrau'r pandemig cyn i brydleswyr swyddfa, defnyddwyr a gweithwyr brofi unrhyw effeithiau negyddol o weithio gartref neu ddechrau meddwl yn greadigol am sut i ail-ddyfeisio swyddfeydd y ddinas: mae'r ymdeimlad a'r ymateb wedi bod yn symud wrth i gyfyngiadau fynd rhagddynt a dechreuodd cwmnïau a gweithwyr ddarganfod rhai o'r diffygion mewn gwethio gartref.

Ni ddylem dybio bod y 'normal newydd' yn awgrymu diwedd llwyr ar waith swyddfa canol y ddinas. Nid dyna'r achos. Mae rhai llywodraethau'n rhyngwladol, sy'n pryderu am yr argyfwng economaidd sy'n wynebu canol eu dinasoedd ac felly eu gwledydd, wedi dechrau ymgrychu i berswadio gweithwyr o bwysigrwydd a manteision gweithio mewn swyddfeydd ac i dynnu sylw at rai o ganlyniadau economaidd ac iechyd andwyol gweithio gartref. Wrth gwrs, mae rhai cwmnïau yn y lleoliadau gweth uchaf yn wir yn meddwl, os nad oes neb yn dod i'r swyddfa, pam mae angen i'r gweithiwr fod yn Llundain pan allent weithredu am gostau is mewn mannau eraill? Fel yr ydym wedi awgrymu: gallai hynny fod yn gyfle i Gaerdydd.

Mae'n amheus y bydd cwmnïau'n parhau i ganiatáu i'r holl staff weithio gartref am bum diwrnod yr wythnos, ond gall dau ddiwrnod yr wythnos ddod yn gyffredin, gyda gweithwyr yn rhannu amser rhwng pencadlys yng nghanol y ddinas a naill ai eu cartref neu'r math o fannau cydweithio lleol, cymdogaeth neu ganolfannau bach yr ydym yn dechrau eu gweld yn dod i'r amlwg. Mewn ymateb, dylai'r Cyngor ddatblygu system eco ddeinamig yng nghanol y ddinas gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r brifysgol gydag arlwy manwerthu a swyddfa wedi'i drawsnewid, ond hefyd gryfhau potensial economaidd canolfannau defnydd cymysg ar draws y ddinas, gan sicrhau rhwydwaith trafniadaeth effeithiol, cydgyssylltiedig.

### Digwyddiadau yn y Brifddinas

Y drydedd her wrthrychol i ganol y ddinas yw galluogi stadiwm sydd wrth galon y ddinas i weithredu'n llwyddiannus ac o reoli llifau pobl mewn cyfnod newydd o bryderon iechyd y cyhoedd. Mae'n eithaf hanfodol bod strategaeth benodol sy'n

canolbwyntio ar Gaerdydd ar gyfer digwyddiadau – strategaeth sydd wrth gwrs yn cynnwys lleoliadau eraill sy'n denu cynulleidfaoedd mawr ar gyfer, dyweder, digwyddiadau diwylliannol, adloniant neu fusnes.

Er gwaethaf y flwyddyn hon o argyfwng, unwaith y bydd heintio cymunedol yn cael ei atal bydd cynulleidfaoedd yn awyddus i ddychwelyd. Bydd chwaraeon a cherddoriaeth yn rhannau allweddol o frandio 'ddinas iach' wrth symud ymlaen. Byddai hefyd yn adlewyrchu'r ffocws gwell y mae'r Cyngor yn ei fabwysiadu ar gerddoriaeth ac ar feithrin enw da am dalent a dyfir gartref, gan gynnwys yr ymrwymiad parhaus tuag at ddarparu Arena Dan Do a chychwyn digwyddiad unigryw ar gyfer Caerdydd i gofleidio safle'r ddinas fel cyrchfan flaenllaw yn y DU ar gyfer chwaraeon a cherddoriaeth.

### Curadu canol y ddinas

Beth bynnag yw union ffurfweddiad y gweithgareddau a'r busnesau yng nghanol y ddinas yn dilyn yr argyfwng hwn, rhaid inni dybio y bydd y Cyngor a'r cydweithwyr yn gwneud mwy i ddenu pobl i ganol y ddinas y maent i gyd eisoes wedi buddsoddi'n helaeth ynddi. O anghenraid, rhaid iddi ddod yn gyrcfan o ddewis. Mae'r asedau gwyrdd a lle ffisegol arbennig sydd gan y ddinas yn aml yn cael eu tanbriso, neu nid ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Mae'n hanfodol bod y ddinas yn ffurfio proses adfywio ac adnewyddu gynhwysfawr i greu rhwydwaith rhagorol a bywiog o adeiladau, lleoedd, parciau a strydoedd mewn un cyfante integredig sy'n hygyrch i bob rhan o'r gymuned a grwpiau oedran. Bydd angen strategaethau ac adnoddau newydd. Bydd angen ffocws, capasiti a 'phedyn cymorth' o'r newydd ar gydgylltu a 'churadu' 'lle' gan y Cyngor: mae'n rhaid cael y rhain nawr, yn hytrach na'u dymuno.

### Dinas enghreifftiol ar ôl COVID-19?

Pryd bynnag y mae pandemigau, newidiadau mewn dewisiadau diwylliannol neu newidiadau yn anghenion economi wedi herio 'y ddinas', mae bob amser wedi llwyddo i fynd un cam yn ôl ond dau gam ymlaen. Mae wedi ailgynllunio ei hun i oroesi. Mae wedi bod yn wydn, gan daro'n ôl yn gryfach ar ôl amgyffred gwersi o fygythiadau blaenorol. Mae'r dinasoedd gorau'n deall yr hyn yn eu dinas y gellir ei ailgychwyn, ailfeddwl beth sydd angen ei ailfeddwl, ac adnewyddu'r hyn sydd angen ei newid. Mae meddwl y cyhoedd yn symud i feddylfryd 'byw gyda/bywyd ar ôl' sy'n gysylltiedig â sicrhau'r dyfodol economaidd ac iechyd, rydym yn gweld pobl yn dechrau adennill eu dinas.

### Atgyfnerthu hanfodion y 'ddinas dda'...

Ar un lefel mae COVID-19 yn atgyfnerthu rhai o hanfodion y 'ddinas dda', un sy'n iach ac yn braf i fyw ynddi. Mae gan Gaerdydd y potensial i ddod yn ddinas sylfaenol iach i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ynddi. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Mae hyn hefyd yn ein hatgoffa o bwysigrwydd pethau fel aer glân, mannau cyhoeddus, parciau ac ardaloedd gwyrdd yn eich cymdogaeth. Mae COVID-19 yn magu rhywfaint o awydd am feddylfryd newydd sy'n sicrhau ansawdd bywyd gwell tra'n diogelu cynhyrchiant, cynhwysiant cymdeithasol a'r amgylchedd. Yn ganolog i hyn mae ffocws ar wneud lleoedd, ansawdd, tirwedd, pensaernïaeth a dylunio yn fwy cyffredinol.

Wrth i sioc yr argyfwng ildio i gynllunio'r dyfodol, byddwn yn gweld meddylfryd ôl-argyfwng yn troi at feddylfryd newydd ar strategaethau integredig er mwyn cryfhau gwydnwch ein dinasoedd yn sylweddol a sut y gallant ddod yn fwy cynhwysol, hygyrch, gwyrddach, mwy cylchol a doethach. Bydd rhan o'r meddylfryd newydd hwn yn ymwneud â chynnwys y Cyngor yn

well wrth helpu i sicrhau cyfleoedd iechyd, lles, sgiliau a chyflogaeth y bobl y maent yn atebol iddynt.

Mae COVID-19 wedi gwneud i ni feddwl mwy am 'le', nid llai. Yr ydym i gyd yn awr yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael mannau cyhoeddus ac agored diogel a chroesawgar, i gael mynediad i fannau crynodol a chyfnewidiol fel canolfan datblygu economaidd ac arloesi.

### Manteisio ar fomentwm o amgylch yr agenda werdd

Mae'r argyfwng wedi ein galluogi i feddwl am yr hyn y mae tueddiadau hirdymor yn ei olygu i'n dinasoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r agenda hinsawdd a'r economi. Mae momentwm, wedi'i symbylu gan COVID-19, tuag at wireddu Cytundeb Paris a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn lleol. Mae'r agenda hon wedi'i chrynhai fel 'di-dlodi, di-garbon'. Mae tai yn allweddol fel rhan o ymdrech adfywio a gwneud lleoedd ehangach sy'n cynnwys ôl-ffitio aneddiadau presennol a chreu rhai newydd ar hyd model defnydd mwy cymysg, cerdded a chynaliadwy – 'ddinas pentrefi'.

### 'Llywodraethu wedi'i rwydweithio' Caerdydd

Mae ail-ymddangosiad llwyddiannus Caerdydd yn sgil COVID-19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor esblygu ei fodel o arweinyddiaeth agored a chydweithredol. Mae'r model hwn yn ymwneud cymaint â'r cyngor fel prif eiriolwr y ddinas, a threfnu a chynnal cynghreiriaid ag y mae'n ymwneud â bod yn gynhyrchydd gwasanaethau cyhoeddus.

### Crynodeb o'r Cyd-destun Rhyngwladol

- Er bod dinasoedd bob amser wedi ymateb i heriau, roedd megaddinasoedd y byd eisoes yn canfod bod tagfeydd a chostau'n dechrau gorbwyso manteision crynodiad.
- Mae cyfle i ddinasoedd llai fel Caerdydd lle mae capasiti ar gyfer crynodiad pellach, tra'n cadw ansawdd bywyd a manteision o ran costau.
- Yn fyd-eang, mae dinasoedd yn wynebu'r un heriau o ran manwerthu a defnydd swyddfeydd yn y ddinas. Mae ymatebion blaengar wedi ymrwmo i ddefnyddio hyn fel cyfle i adeiladu canol dinasoedd gwell a mwy curadol.
- Bydd y galw am brofiadau yn dychwelyd – ond bydd yn chwilio am gynigion mwy dilys a gwahanol.
- Bydd mannau cyhoeddus yn dod yn rhan greiddiol o seilwaith economaidd y ddinas.
- Mae bron pob dinas yn mabwysiadu dull adfer gwyrdd, gan fuddsoddi yn cynaliadwyedd eu dinasoedd tra'n creu swyddi hefyd.
- Mae dinasoedd llwyddiannus yn ymateb mewn partneriaeth – gyda llywodraethau, busnes ac yn bwysicaf oll, eu cymunedau lleol.

## 10 tuedd allweddol i lunio adferiad ac adnewyddu Caerdydd

1. **Mae newyddion am farwolaeth dinasoedd wedi'i orliwio'n fawr:** Bydd crynodiad, arloesedd, creadigrwydd yn parhau i sbarduno twf economaidd a swyddi. Fel dinas graidd Cymru bydd Caerdydd yn parhau i chwarae rôl arweiniol yn economi Cymru ar ôl COVID.
2. **Bydd model gweithio newydd yn dod i'r amlwg:** Er y bydd ystwythder a gweithio gartref yn anochel yn newid y ffordd y mae'r swyddfa'n gweithredu yn y dyfodol, mae llawer o fusnesau a gweithwyr am ddychwelyd i ddinasoedd. Bydd manau a lleoedd mewn dinasoedd i bobl gydweithio hefyd yn dod yn bwysicach fyth i'n heconomïau.
3. **Ailgychwyn y profiad manwerthu:** Efallai na fydd y newid carlam i fanwerthu ar-lein yn gwrthdroi, gan gael effaith ddofn ar rôl canol y ddinas, canolfannau ardal, a'r farchnad lafur, yn enwedig i bobl ifanc. Fodd bynnag, bydd tirwedd fanwerthu newydd yn dod i'r amlwg, yn fwy dilys ac yn fwy unigryw, ac yn gwneud canol y ddinas a chanolfannau ardal yn lleoedd mwy diddorol.
4. **Y ddinas fel profiad:** Er y gallai'r duedd i siopa ar-lein fod yn ddi-droi'n-ôl, yr arwyddion yw y bydd lletygarwch yn taro'n ôl wrth i'r cyfnod clo leddfu, a bydd rôl bwyd a diod, y celfyddydau a diwylliant yn economi'r ddinas, a digwyddiadau, manau a phrofiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd yn parhau'n bwysig.
5. **Y lleol, wedi'i ailganfod:** Mae cyfnodau clo wedi arwain at fwy o werthfawrogiad o ardaloedd lleol a'r galw am wasanaethau lleol. Bydd cymdogaethau, gyda mynediad hawdd a diogel i siopau, ysgolion, gofal iechyd a manau gwyrdd a glas, gan roi mwy o le i bobl, yn rhan ganolog o ddinasoedd ôl-adfer.
6. **Bydd digideiddio – popeth – yn parhau:** Yn ogystal â galwadau Zoom a manwerthu ar-lein, bydd dinasyddion yn cael mynediad cynyddol at wasanaethau ar-lein.
7. **Heb weithredu pendant, bydd y bwll rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ehangu:** Wynebodd y cymunedau tlotaf yr ergyd ddwbl o galedi iechyd ac ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Oni weithredir ar y cyd, bydd yr anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli rhwng y cymunedau cyfoethocaf a tlotaf ar draws y ddinas yn ehangu.
8. **Datglo'r cyfnod clo:** Yn y byrdymor, gall ofn o'r feirws barhau i daro trafndiaeth gyhoeddus, gyda newid i yrru, beicio a cherdded. Er mwyn osgoi symud o'r cyfnod clo i dagfeydd, mae dinasoedd yn buddsoddi mewn parcio dros dro, rhwydweithiau beicio ledled y ddinas ac mewn canolfannau dosbarth hygyrch, diogel.
9. **Paratoi ar gyfer y sioc nesaf i'r system:** Bydd risgiau yn y dyfodol, yn enwedig yr argyfwng hinsawdd, yn gofyn am gynllunio i sicrhau gwydnwch dinasoedd, a hefyd cyfleoedd yn yr economi carbon isel y mae angen eu cymryd.
10. **Materion Llywodraethu Da:** Mae llywodraethu da yn nodweddiadol o ddinasoedd sydd wedi ymateb yn dda, gyda phartneriaethau a pherthynas â gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a haenau eraill o lywodraeth yn ganolog i allu'r Cyngor i greu ymateb ar draws y ddinas i'r pandemig ac adfer ac adnewyddu. I'r rhai a gafodd y peth yn iawn, mae'r pandemig wedi gweld cynnydd mewn boddhad dinasyddion â mwy o ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol.

## Adfer ac Adnewyddu: Gwyrddach, Tecach, Cryfach

Mae'r strategaeth hon yn ystyried yr ymateb mewn dwy adran, y cynllun gweithredu uniongyrchol ar gyfer adfer economi'r ddinas wrth iddi ailagor, a chyfres o deithiau allweddol i gyflawni cam nesaf datblygiad y ddinas.

Y flaenoriaeth uniongyrchol yn yr adferiad yw diogelu swyddi a busnesau, gan roi mesurau ar waith i liniaru effaith cyfyngiadau ar fusnes wrth iddynt leddfu a pharhau i geisio buddsoddiad pellach i gefnogi twf swyddi. At hynny, bydd angen hyrwyddo'r cyfnod adfer ymhellach hefyd er mwyn helpu i ddychwelyd nifer yr ymwelwyr yn ein dinasoedd a'n canolfannau ardal.

Mae'r cyfnod adnewyddu yn edrych ar y tymor hwy, gan sefydlu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol y ddinas sy'n ddinas wyrddach, decach a chryfach. Mae hyn yn ymwneud â chreu'r ddinas yr ydym am ei chreu, sefydlu economi sy'n darparu cyflogaeth gynaliadwy, sy'n talu'n dda ac sy'n rhoi boddhad, ac ystyried effaith ein penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol.

<b>Adfer</b>	<b>Adnewyddu</b>
Beth sydd angen inni ei wneud yn awr i gefnogi swyddi a chymunedau?	Sut mae creu dinas well ar gyfer y dyfodol?
<i>Materion adfer ar unwaith</i>	<i>Cenadaethau Allweddol i'r ddinas</i>
<i>Cefnogi busnesau a diogelu swyddi</i>	<i>Creu mwy o swyddi, a gwell swyddi, a dinas well i fyw ynddi ac ymweld â hi.</i>

### Y Cenadaethau

Wrth i'r ddinas ddod allan o bandemig y coronafeirws, tra bydd rhai pethau'n newid ac eraill yn aros yr un fath, bydd y ddinas, y genedl ac economi'r byd yn wahanol. Mae'n hanfodol ein bod fel dinas yn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu ac yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. I wneud hyn byddwn yn mabwysiadu nifer o genadaethau allweddol:

- Cenhadaeth 1: Ail-lunio canol y ddinas
- Cenhadaeth 2: Dinas i Bawb
- Cenhadaeth 3: Dinas o Bentrefi
- Cenhadaeth 4: Adfywio sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant a chwaraeon
- Cenhadaeth 5: Dinas Dechnolegol
- Cenhadaeth 6: Adferiad Un Blaned

Wrth gyflawni'r cenadaethau hyn byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i nodi cyllid ac adnoddau posibl.

## Adferiad ar unwaith: Diogelu Swyddi a Busnes

Mae'r ymateb cychwynnol yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau, wrth i'n dinas wella, ei bod yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel sy'n diogelu swyddi a busnesau. Er mwyn gwneud hynny, mae cyfres o ymyriadau'n cael eu datblygu dros y misoedd nesaf i gefnogi'r adferiad gyda'r nod o ailagor economi'r ddinas a dychwelyd bywyd y ddinas, ac mae cynllun adfer manwl yng nghanol y ddinas wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yng nghanol y ddinas bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu stiwardiaid i gynorthwyo ymwelwyr a busnesau. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu lle ychwanegol i'r sector lletygarwch, gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer trwyddedau ar gyfer defnyddio manau cyhoeddus. Bydd tiroedd y Castell yn parhau i fod ar agor fel sgwâr cyhoeddus. Bydd buddsoddiad hefyd yn digwydd mewn ardaloedd allweddol fel Ffordd Churchill i greu lle ychwanegol i ymwelwyr, gyda phwyslais ar greu ardaloedd sy'n ystyriol o blant.

Byddwn yn gweithio gyda busnesau canol y ddinas i fabwysiadu cynllun cymudo, gan annog gweithwyr canol y ddinas i ddechredu mewn ffordd ddiogel a rheoledig. Bydd hyn hefyd yn cynnwys sefydlu trefniadau monitro ar gyfer parcio er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer gweithwyr y bydd angen iddynt deithio i'r gwaith mewn car o hyd, neu sy'n dal i fod yn amharod i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus wrth i'r pandemig ddod i ben. Byddwn hefyd yn sefydlu cynlluniau 'parcio a cherdded' i ddarparu lle parcio ychwanegol os bydd angen.

Wrth hyrwyddo'r adferiad byddwn yn parhau â'r ymgyrch #YrUnDdinas gan ganolbwyntio ar arosiadau a'r farchnad ddomestig, gan hyrwyddo ein hasedau a'n manau awyr agored, yn ogystal â'n cymdogaethau. O fewn ein canolfannau ardal byddwn hefyd yn parhau â'n gweithgarwch o welliannau i'r byd cyhoeddus, gwyrddio a buddsoddi mewn teithio llesol.

Yn ystod yr haf byddwn yn gweithio gyda'n sector digwyddiadau i gyflwyno digwyddiadau prawf, a rhoi cymorth i sefydlu a chyflwyno digwyddiadau sy'n ddiogel i fynychwyr. Byddwn hefyd yn sefydlu atyniadau ymwelwyr diogel COVID ym Mae Caerdydd, ac yn gwneud mwy o ddefnydd o'n manau agored.

Bydd gwaith hefyd yn parhau i gefnogi ein canolfannau dosbarth, ac yn datblygu'r gwaith o gyflwyno llwybrau beicio ar draws y ddinas. Bydd Croeso Caerdydd hefyd yn datblygu ymgyrchoedd pwrpasol ar gyfer cymdogaethau dinas.

Byddwn yn parhau i gyflawni gwaith y Tasglu Economaidd, ac yn arbennig cyflwyno'r cynllun Kickstart.

Yn olaf, ond yn bwysicaf oll, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar barhau i gyflwyno'r rhaglen frechu, darparu'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu i leihau'r trosglwyddo, a rheoli achosion pellach, o COVID-19, ar fonitro ac ymateb i 'Amrywiadau sy'n Destun Pryder' ac ar sicrhau y glynir wrth reoliadau ymbellhau cymdeithasol.



